OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 2254

## Rheoliadau Bwyd (Cnau Brasil) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

mae i "awdurdod bwyd" yr un ystyr â "*food authority*" yn adran 5(1A) a (3)(a) a (b) o'r Ddeddf;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*") mewn perthynas ag unrhyw ardal iechyd porthladd a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), awdurdod iechyd porthladd ar gyfer yr ardal honno a sefydlwyd gan orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf;

ystyr "cnau Brasil" ("*Brazil nuts*") yw cnau Brasil yn eu plisg ac sy'n dod o fewn Cod CN 0801 21 00 sy'n tarddu o Frasil neu sy'n cael eu traddodi oddi yno(**2**);

ystyr "Cyfarwyddeb 98/53/EC" ("*Directive 98/53/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 98/53/EC sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol ar lefelau halogion penodol mewn bwydydd(**3**) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2002/27/EC(**4**);

mae i "cylchrediad rhydd" yr un ystyr â "*free circulation*" yn Erthygl 23.2, fel y'i darllenir ynghyd ag Erthygl 24, o'r Cytuniad a sefydlodd y Gymuned Ewropeaidd;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990(**5**)) ac, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall ac yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn y Ddeddf yr ystyr sydd iddo yn y Ddeddf; ac

ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2003/493/EC sy'n gosod amodau arbennig ar fewnforio cnau Brasil yn eu plisg ac sy'n tarddu o Frasil neu yn cael eu traddodi oddi yno(**6**);

(2) Mae i unrhyw derm a ddefnyddir yn y diffiniad o "cnau Brasil" ym mharagraff (1) yr un ystyr â'r termau cyfatebol ym Mhenderfyniad y Comisiwn.

(**1**) 1984 p.22.
(**2**) Cod CN yw Rhif cod y "gyfundrefn enwi gyfun" a sefydlwyd gan Reoliad y Cyngor 1658/87 ar y tariff a chyfundrefn enwi ystadegol ar dariff y tollau (Rhif OJ L256, 7.9.87, t. 1).
(**3**) OJ Rhif L201, 17.7.1998, t.93.
(**4**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.44.
(**5**) 1990 p. 16.
(**6**) OJ Rhif L168, 5.7.2003, t.33.